| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 25 Mehefin 2024 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Liz Thomas, Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Awdur yr adroddiad** | Rhian Evans, Prif Gyfrifydd (Dirprwy Swyddog Adran 151) |
| **Teitl** | Adroddiad Ariannol (Sefyllfa Ariannol Derfynol 2023/24) |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r Cabinet wedi derbyn adroddiadau monitro rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ariannol ynglŷn â pherfformiad gwariant yn erbyn y gyllideb a'r arbedion y cytunwyd arnynt ar gyfer 2023/24. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae drafft y Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2023/24 ar fin cael ei gyflwyno i'r archwilwyr allanol ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi er gwybodaeth. Mewn ymgynghoriad ag Archwilio Cymru, y bwriad yw bod y cyfrifon a archwiliwyd yna'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2025 i'w cymeradwyo'n ffurfiol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I roi gwybod am y sefyllfa refeniw derfynol a chymeradwyo'r dull arfaethedig o drin balansau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r sefyllfa refeniw derfynol ar gyfer 2023/24 a chymeradwyo sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2023/24 fel y manylir yn yr adroddiad ac yn Atodiadau 1 -3.

## 4. Manylion yr adroddiad

**4.1 Sefyllfa derfynol 2023/24** Mae ffigyrau'r Sefyllfa Refeniw Derfynol wedi'u nodi yn **Atodiad 1** ac mae'r pwyntiau allweddol wedi'u crynhoi isod:

- Y sefyllfa derfynol gyda chyllidebau corfforaethol a gwasanaeth (gan gynnwys tanwariant heb ei ddirprwyo o £115mil gan ysgolion) yw gorwariant o £513mil.
- Ar yr ochr ariannu, roedd diffyg bychan o £163mil yn y gyfradd gasglu bresennol ar gyfer Treth y Cyngor.
- Roedd hyn yn golygu bod angen defnyddio £676mil o gronfa wrth gefn Lliniaru'r Gyllideb i ariannu'r gorwariant net.
- Bu i ysgolion orwario o £5.258m gan arwain at gyfanswm gorwariant y gyllideb o £5.934m.

Roedd cyllideb 2023/24 yn cynnwys arbedion ac effeithlonrwydd o £8.172m, ac roedd £6.09m o'r rhain yn deillio o gyllidebau corfforaethol, ysgolion yn £0.82m a bu i wasanaethau roi mesurau yn eu lle a monitro'r £1.26m sy'n weddill o fewn y cyllidebau cyffredinol.

**4.2 Gwasanaethau** - Ar y cyd bu i wasanaethau orwario o £3.2m yn ystod y flwyddyn. Mae mesurau rheoli cyllidebol i liniaru yn erbyn y cynnydd mewn costau a'r galw am wasanaethau, a gyflwynwyd yn yr Hydref gan fod y lefel a ragwelwyd o ran gorwariant wedi cyrraedd uchafbwynt o £4.5m, wedi cynorthwyo i leihau'r lefel gyffredinol o orwariant. Fe gyrhaeddodd mwyafrif y gwasanaethau ddiwedd y flwyddyn gyda thanwariant. Er mwyn cynorthwyo gyda strategaeth gyffredinol y gyllideb, cynigir nad yw gwasanaethau'n cario unrhyw danwariant drosodd.

Bu i'r Gwasanaethau Addysg a Phlant, Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd orffen y flwyddyn gyda gorwariant. Er bod y cyllidebau wedi cynyddu'n 2023/24, mae'r cynnydd mewn galw a chymhlethdod y

ddarpariaeth, ar gyfer yr hyn sydd yn bennaf yn wasanaethau statudol, wedi defnyddio'r cyllidebau uwch.

**4.3 Cyllidebau Corfforaethol** - Mae'n anodd rhagweld y cyllidebau arian at raid a gedwir yn ganolog, yn arbennig flwyddyn yma. Mae elfennau allweddol y tanwariant o £2.7m yn ymwneud â ffactorau sydd wedi'u hadrodd i'r Cabinet drwy gydol y flwyddyn ac yn bennaf yn dilyn arian at raid ar gyfer costau cyflog ac ynni, gydag ynni'n benodol yn cael ei reoli o fewn y cyllidebau heb fod angen defnyddio'r arian at raid. Mae gorwariant y Gyllideb Ariannu Cyfalaf o £87mil yn deillio o'r cynnydd mewn anghenion benthyca ar gyfer y prif gynlluniau cyfalaf ar adeg lle bo'r cyfraddau llog yn cynyddu tuag at ddiwedd y flwyddyn.

**4.4 Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd** - Mae manylion y trosglwyddiadau i ac o'r cronfeydd wrth gefn, y rhai a roddwyd o'r neilltu i ddiben penodol, yn **Atodiad 2.** Mae'r rhan helaeth o'r symudiadau wedi'u cynnwys yn y gyllideb neu wedi'u cymeradwyo yn sgil adroddiadau monitro blaenorol i'r Cabinet. Mae'r holl gronfeydd wrth gefn yn cael eu hadolygu fel rhan o'r broses gyllidebu flynyddol.

Roedd ein hatebolrwydd i'r gronfa bensiynau yn y flwyddyn mewn sefyllfa o arian dros ben ac mae hyn wedi'i ychwanegu at Gronfa Wrth Gefn Pensiynau. Fel rhan o'r mesurau arbed arian ar gyfer 2024/25 mae'r costau gadael sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Gadael Gwirfoddol sy'n weithredol ers mis Tachwedd 2023 wedi'u hariannu o Gronfa Wrth Gefn Pensiynau yn 2023/24, gan arwain at gynnydd net yn y gronfa wrth gefn o £0.7m.

**4.5 Ysgolion** – Roedd y gyllideb a gymeradwyodd y Cyngor ar gyfer 2023/24 yn cynnwys cyfanswm buddsoddiad ychwanegol net o £3.03 miliwn yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion (heb gynnwys cynnydd mewn grantiau Llywodraeth Cymru). Mae manylion cronfeydd wrth gefn dirprwyedig ysgolion unigol a sefyllfa gyffredinol ysgolion wedi'u nodi yn **Atodiad 3.** Y balansau ysgolion cyffredinol sy'n cael eu cario ymlaen i 2024/25 yw £3.681m, o gymharu â'r balansau a ddygwyd ymlaen yn 2023/24 o £8.939m, sy'n golygu bod ysgolion wedi tynnu £5.258m i lawr o'u cronfeydd wrth gefn. Mae cydweithwyr Addysg a Chyllid yn gweithio'n agos gydag ysgolion i helpu i sicrhau bod y balansau hyn yn cael eu defnyddio mewn modd amserol ac effeithiol.

**4.6 Y Cyfrif Refeniw Tai -** Balansau'r Cyfrif Refeniw Tai sydd wedi'u cario ymlaen i 2024/25 yw £1.180m, o gymharu â'r balansau a ddygwyd ymlaen yn 2023/24 o £1.568m, sy'n golygu y tynnwyd £338mil i lawr o gronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai.

**4.7 Cyllideb 24/25 -** Mae gan y Cyngor brosiect ar y gweill i ddisodli mwyafrif systemau ariannol presennol y Cyngor gyda system gyllid unigol newydd. Mae hyn yn cynnwys system awtomatig i gynhyrchu gwybodaeth monitro'r gyllideb misol ac rydym yn gweithio tuag at gyflwyno'r wybodaeth cyntaf ar fonitro misol o'r gyllideb a manylion arbedion i'r Cabinet yn mis Gorffennaf. Mae'r tîm cyllid yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda gwasanaethau ac yn gweithio drwy'r gofynion gwasanaeth diweddaraf ac yn cymharu â chyllidebau rhagweledig. Mae'n gynnar yn y flwyddyn ariannol ac nid yw pwysau mewn rhai meysydd yn dod i'r amlwg nes ddechrau tymor yr Hydref ac mae risgiau bob tro wrth reoli cyllidebau a chyflawni arbedion ac mae'r rhain yn cael eu monitro. Mae ardaloedd risg uchel yn cynnwys unrhyw newidiadau mewn lleoliadau preswyl yn Gwasanaethau Plant, a ffioedd gofal mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Er mae'n bosib y gellid lliniaru'r risgiau hyn trwy ailadrodd tanwariant corfforaethol a ddisgrifir yn 4.3.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i waith ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2023/24 oedd £250.793m. Y sefyllfa derfynol ar gyllidebau corfforaethol a gwasanaethau oedd gorwariant net o £513mil (0.3% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer y meysydd hynny). Gan ystyried cyllid ac ysgolion, roedd yr amrywiant ar gyfanswm y gyllideb yn orwariant o £5.934m (2.4% o'r gyllideb refeniw net). Mae'r gorwariant net yn cynnwys £5.258m o orwariant mewn ysgolion, sy'n cael ei ddwyn ymlaen ar wahân. Roedd y sefyllfa gyffredinol yn gofyn am ddefnyddio £676mil o gronfeydd wrth gefn Lliniaru'r Gyllideb er mwyn ariannu'r sefyllfa gorwariant net.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Cyflwynwyd Asesiadau o'r Effaith ar Les ar gyfer y cynnydd yn Nhreth y Cyngor i'r Cyngor ar 31 Ionawr 2023.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Arwain Strategol, cyfarfodydd Briffio'r Cabinet, Arweinwyr Grŵp a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgol wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy gydol y flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae lefelau sylweddol o orwariant ar draws y gwasanaethau'n peri pryder ac er y cafwyd buddsoddiad sylweddol mewn meysydd gwasanaeth penodol dros y blynyddoedd diwethaf mae'r pwysau o ran galw yn parhau ar gyfer y gwasanaethau hynny. Gofynnwyd i bob gwasanaeth ddod o hyd i arbedion yn ystod y flwyddyn drwy roi'r gorau i wariant nad yw'n hanfodol a gohirio gwariant pan fo'n bosibl. Roedd yr ymagwedd hon, ynghyd â pheidio â bod angen arian at raid corfforaethol, yn llwyddiant er mwyn lliniaru yn erbyn y pwysau costau cynyddol ar draws y Cyngor a lefel is o orwariant o gymharu â'r hyn a ragwelwyd. Mae'r camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn i helpu i leihau'r pwysau cyffredinol yn golygu ein bod wedi gallu ariannu'r gorwariant o gronfa wrth gefn Lliniaru'r Gyllideb a chadw lefelau'r cronfeydd wrth gefn sydd heb eu clustnodi uwchben £5m, sy'n lefel ddarbodus i ymdopi â phwysau ariannol na ellir ei ragweld.

9.2 Mae balansau ysgolion wedi gostwng yn y flwyddyn ariannol hon, ac mae gan 13 o ysgolion falansau diffygiol ( o gymharu â 3 yn y flwyddyn flaenorol). Er bod rhan helaeth o'r symudiad wedi bodloni'r disgwyliadau gan fod a wnelo'r balansau agoriadol uchel yn bennaf â derbyn cyllid untro i'w wario ar raglenni dal i fyny ac adfer mewn ysgolion, mae'r costau cynyddol wedi effeithio ar yr holl ysgolion. Mae'n debygol y bydd ysgolion yn wynebu heriau ariannol sylweddol yn 2024/25 a 2025/26 a disgwylir i'r balansau hyn ostwng eto yn y blynyddoedd hynny.

9.3 Mae pwysau costau wedi eu cynnwys o fewn cyllideb 2024/25 i adlewyrchu pwysau gwasanaeth 2023/24 a'r hyn a ragwelir gymaint â phosibl er mwyn datblygu cadernid. Mae'r rhain wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar ragolygon o'r galw a chostau diweddaraf ac felly ystyriwyd i fod yn rhesymol o ystyried anghenion gwariant gwasanaethau statudol yn 2024/25 a'r cyd-destun ariannol ar gyfer gosod y gyllideb. Mae gan y Cyngor broses

gyllidebol gadarn sy’n helpu i nodi pwysau ac arbedion a dulliau ariannu a fydd yn helpu i gynnal cyflwr ariannol y Cyngor i’r dyfodol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae hwn yn parhau’n gyfnod ariannol heriol ac mae rhai materion gwasanaeth penodol, ynghyd â phwysau chwyddiant drwy’r holl wasanaethau, yn dod yn fwyfwy anodd eu hariannu wrth i’n cyllid fethu dal i fyny â’r pwysau o ran chwyddiant, gwasanaethau a demograffeg. Cafodd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, oedd yn rhoi ystod o ragolygon ariannol a chrynodeb o Strategaeth y Gyllideb ar gyfer 2025/26 a thu hwnt, ei chyflwyno i’r Cabinet ym mis Ebrill. Dyma sylfaen y dull rheoli risg.

10.2 Er gwaethaf monitro costau’n ofalus a thracio cynigion arbedion, yn y pen draw os bydd gorwariant sylweddol yn ystod y flwyddyn yn 2024/25 fel y gwelwyd yn 2023/24, ac os na fydd cynigion arbedion yn gallu cael eu cyflawni, bydd hyn yn arwain at ddibynnu ar gronfeydd wrth gefn yn 2024/25. Bydd hyn yn lleihau lefelau cynaliadwyedd a gwydnwch ariannol y Cyngor wrth symud ymlaen. Mae’r sefyllfa ariannol yn hynod heriol, ac mae rheolaeth ariannol effeithiol a disgybledig yn ystod y flwyddyn yn hanfodol i holl ddeiliaid cyllideb.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.